Adroddiad i'r	**Pwyllgor Craffu Perfformiad**
Dyddiad y cyfarfod	**16 Mawrth 2023**
Aelod / Swyddog Arweiniol	**Y Cynghorydd Rhys Thomas - Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau / Angela Loftus - Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai**
Pennaeth Gwasanaeth	**Emlyn Jones - Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad**
Awdur yr Adroddiad	**Jane Abbott - Uwch Swyddog Cynllunio Strategol a Thai**
Teitl	**Cynnydd ar Gyflwyno Strategaeth Tai a Digartrefedd Sir Ddinbych**

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Strategaeth Tai a Digartrefedd Sir Ddinbych a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar 8 Rhagfyr 2020. Mae tabl sy'n nodi cynnydd ar y cynllun gweithredu ynghlwm fel Atodiad A ac mae crynodeb o'r strategaeth wedi'i gynnwys fel Atodiad B.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Darparu gwybodaeth ynghylch y cynnydd a wnaed hyd yma i gyflawni'r Strategaeth Tai a Digartrefedd a Chynllun Gweithredu a gymeradwywyd gan y Cyngor Sir ar 8 Rhagfyr 2020.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn:

3.1. ystyried yr adroddiad, ac yn darparu arsylwadau ar y cynnydd a wnaed hyd yma wrth gyflawni'r Strategaeth Tai a Digartrefedd diwygiedig a'r Cynllun Gweithredu; a

3.2. cytuno i barhau i fonitro'r gwaith o gyflawni Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Tai a Digartrefedd.

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae Strategaeth Tai a Digartrefedd Sir Ddinbych yn nodi gweledigaeth a nodau'r Cyngor ar gyfer tai yn y Sir ar gyfer y cyfnod 2021-2026. Mae'n ddogfen gorfforaethol bwysig i'r Cyngor ac mae'n darparu'r fframwaith ar gyfer holl swyddogaethau tai a digartrefedd y Cyngor (preifat a chyhoeddus). Mae'r Strategaeth wedi'i gosod o fewn fframwaith y Cynllun Corfforaethol fel y nodir yn 5.1 ac wedi'i leoli ochr yn ochr â'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl). Mae'r Strategaeth gyfredol yn nodi 6 "Thema" sy'n feysydd blaenoriaeth i'w gweithredu:

- Mwy o gartrefi i fodloni'r angen a'r galw lleol;
- Creu cyflenwad o dai fforddiadwy;
- Sicrhau cartrefi diogel ac iach;
- Atal a rhoi diwedd ar ddigartrefedd yn Sir Ddinbych;
- Cartrefi a chymorth i bobl ddiamddiffyn;
- Hyrwyddo a chefnogi cymunedau.

4.2. Mae'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Gweithredu yn cael ei oruchwylio gan y Grŵp Strategol Tai a Digartrefedd, sy'n cael ei gadeirio gan y Cynghorydd Rhys Thomas yn ei rôl fel Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau. Mae Aelodau o'r Grŵp yn cynnwys yr Aelodau Arweiniol hynny sydd â chyfrifoldeb am ardal o dai neu ddigartrefedd o fewn eu portffolios, Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol a'r Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai.

4.3. Mae'r Grŵp yn cyfarfod bob chwarter ac yn monitro ac adolygu cynnydd, gyda mewnbwn gan wahanol Benaethiaid Gwasanaeth a swyddogion sydd yn rhan o gyflawni camau gweithredu unigol. Mae unrhyw faterion posibl i fodloni targedau yn cael eu nodi cyn gynted â phosib. Mae'r Grŵp hefyd yn goruchwylio dyraniad strategol y Grant Tai Cymdeithasol (GTC) a ddyfernir yn flynyddol gan Lywodraeth Cymru i helpu landlordiaid cymdeithasol greu datblygiadau tai fforddiadwy. Yn 2022/23 roedd gan Sir Ddinbych £9.2 miliwn i'w ddyrannu ac yn

2023/24 y dyraniad dangosol yw £10.2 miliwn, bydd y swm hwn yn cael ei gadarnhau erbyn mis Ebrill 2023.

4.4. Mae'r Strategaeth yn cyd-fynd â'r Cynllun Gweithredu 41 pwynt. Mae'n nodi cyfrifoldebau'r gwahanol dimau perthnasol o fewn y Cyngor mewn mwy o fanylder, a sut rydym yn gweithio gyda phartneriaid i helpu i gyflawni gweledigaeth y Cyngor ar gyfer tai a digartrefedd. Mae'r Strategaeth yn ddogfen fyw ac mae camau gweithredu yn cael eu hychwanegu fel mae gwaith yn mynd rhagddo ac fel mae eraill yn cael eu cwblhau. Mae gan y Strategaeth Tai a Digartrefedd oes o bum mlynedd (2021 – 2026) a bydd angen ei hadolygu yn 2026.

Meysydd allweddol o gynnydd

4.5 Mae'r cynllun gweithredu wedi'i fonitro trwy'r adolygiad o themâu penodol ym mhob cyfarfod. Mae'r chwe thema wedi'u hadolygu'n fanwl. Dyma uchafbwyntiau o'r hyn sydd wedi cael ei gyflawni o'r themâu hyn:

- Canlyniad tai fforddiadwy blynyddol uchaf a gyflawnwyd gan Sir Ddinbych o 285 o unedau fforddiadwy sy'n golygu mai Sir Ddinbych yw'r awdurdod sy'n perfformio orau fesul y pen o'r boblogaeth ar gyfer tai fforddiadwy yn 2021/22 yng Nghymru.
- Mae Cyngor sir Ddinbych wedi cael mynediad am y tro cyntaf at Grant Tai Cymdeithasol (SHG) o £1.4 miliwn tuag at ddatblygiad y cynllun Unigolion Hŷn sy'n cael ei adeiladu yn hen Lyfrgell Prestatyn ac mae'r Cyngor wedi cyflwyno 3 chynllun arall i gael cyllid i gynnig am gyfran o £10.2 miliwn o gyllid Grant Tai Cymdeithasol ar gyfer 2023/24
- Disgwylir i anheddau cyntaf y Cyngor i gael eu hadeiladu yn Ninbych a Phrestatyn gael eu cwblhau erbyn mis Ebrill/Mai 2023.
- Mae gweithgor wedi'i sefydlu i symud ymlaen â'r datblygiad gofal ychwanegol yng Nghorwen, a fydd yn gweithio gydag aelodau i symud y prosiect ymlaen.
- Mae estyniad Gofal Ychwanegol Llys Awelon, Rhuthun wedi dechrau ar y safle gyda'r hen gartref nyrsio bellach wedi'i ddymchwel. Disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau ym mis Chwefror 2024
- Mae trawsnewid tai amlfeddiannaeth o ansawdd gwael (HMOs) ar Stryd y Baddon, Rhyl i lety hunangynhwysol ar y gweill.
- Ers i'r cynllun trwyddedu ychwanegol tai amlfeddiannaeth gael ei gyflwyno ym mis Rhagfyr 2020, mae 97 o eiddo wedi'u trwyddedu - mae 18 ohonynt yn anheddau newydd i'r cynllun trwyddedu.
- Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym wedi'i gymeradwyo gan LlC
- Mae cynllun prydlesu'r Sector Rhent Preifat ar gyfer Digartrefedd wedi cymryd 4 eiddo ac yn targedu 8 ychwanegol ar gyfer 2023/24, a'u bwriad yw dod ag

80 o gartrefi (ar draws Sir Ddinbych a Conwy) ar brydles hirdymor yn rhan o'r cynllun erbyn 2027.

- Tai yn Gyntaf - Mae Cynllun Peilot *Trailblazer* wedi'i ymestyn i Sir y Fflint a bydd nawr yn gweithredu tan fis Mawrth 2024 gyda chyllid LIC.
- Mae Strategaeth Rheoli Asedau wedi'i datblygu a'i mabwysiadu.
- Mae prosiect Fy Nghartref Sir Ddinbych yn cefnogi'r rhai sydd mewn perygl o ddigartrefedd wedi cael ei sefydlu.
- Mae ymyriadau pwrpasol gyda phobl ifanc sydd dan fygythiad o fod yn ddigartref wedi arwain at gais llwyddiannus am Wobrau Cynhaliaeth Addysg ac rydym wedi llwyddo i gefnogi lleoliadau byw â chymorth llwyddiannus.

4.6. O'r 41 o gamau a nodwyd bod 17 wedi'u cwblhau neu eu hymgorffori yn narpariaeth weithredol 'busnes fel arfer', mae 17 cam gweithredu ar y trywydd iawn i'w cyflawni o fewn yr amserlen benodol, mae rhywfaint o lithriad ar 7 cam gweithredu yn unol â'r terfynau amser gwreiddiol a osodwyd, ond bellach mae ganddynt i gyd derfynau amser diwygiedig a chynlluniau ar waith i'w cwblhau, mae'r gweddill i gyd ar y trywydd iawn i'w cyflawni o fewn y terfynau amser a gytunwyd arnynt.

4.7. Bydd mwy o gamau gweithredu'n cael eu hychwanegu at y cynllun gweithredu fel y bo'n briodol, un o'r ysgogwyr allweddol ar gyfer hyn yw cynllunio gwasanaeth.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Themâu Corfforaethol?

5.1. Mae chwe thema'r Strategaeth Tai a Digartrefedd y manylir arnynt yn **Atodiad B** yn cyfrannu at y blaenoriaethau Corfforaethol canlynol – Tai o ansawdd yn Sir Ddinbych sy'n bodloni anghenion pobl, Sir Ddinbych iachach, hapusach a gofalus, Sir Ddinbych sydd wedi cysylltu'n well, Sir Ddinbych mwy gwyrdd, Sir Ddinbych teg, diogel a mwy cyfartal

5.2. Mae'r wybodaeth yn cyfrannu'n gadarnhaol at nod y Cyngor i ddod yn Sero Carbon Net ac yn Ecolegol Gadarnhaol erbyn 2030 oherwydd y cam gweithredu sy'n ymwneud â datgarboneiddio stoc tai cymdeithasol y Cyngor erbyn 2030.

6 Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Bydd costau'r prosiectau'n cael eu monitro'n agos. Bydd yr holl gostau'n cael eu cadw o fewn y gyllideb – ein costau ni a chostau ein partneriaid.

7 Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1 Cyflawnwyd Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer y Strategaeth Tai a Digartrefedd, ond nid yw'n ofynnol ar gyfer yr adroddiad hwn gan ei fod yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar gynnydd.

8 Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Mae cyfarfodydd ymgynghori ac ymgysylltu sylweddol wedi'u cyflawni i ddatblygu Strategaeth Tai a Digartrefedd Sir Ddinbych ac fe'u hamlinellwyd yn yr adroddiad i'r Cyngor yn ceisio cymeradwyaeth o'r Strategaeth ym mis Rhagfyr 2020. Mae gan y Grŵp Strategol Tai a Digartrefedd rôl allweddol wrth fonitro a goruchwylio'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth Tai a Digartrefedd a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig.

9 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Er bod y strategaeth yn cynnwys gwariant a buddsoddiad sylweddol mewn rhai achosion, mae'r rhain yn cael eu cyflwyno ar hyn o bryd o fewn cyllidebau ac adnoddau presennol sydd wedi'u cymeradwyo. Bydd angen i benderfyniadau pellach ynghylch buddsoddi ystyried y rhagolygon ariannol sy'n gwaethygu ar gyfer awdurdodau lleol.

10 Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Mae sicrhau bod pobl yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sydd yn bodloni eu hanghenion yn brif flaenoriaeth i'r Cyngor. Mae ystod o fecanweithiau ar waith i

fonitro cynnydd, gan gynnwys adroddiadau rheolaidd i'r Grŵp Strategol Tai a Digartrefedd ac adroddiadau pan mae'n ofynnol gan y Pwyllgor Craffu.

11 Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 Deddf Llywodraeth Leol 2000, Deddf Tai 1985 (A8), Deddf Tai 2004 (A8), Deddf Llywodraeth Leol 2003 (A87), Deddf Tai (Cymru) 2014.

11.2 Mae Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 7 o Gyfansoddiad y Cyngor yn nodi pwerau craffu mewn perthynas â'r mater hwn.